***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Paragraff 4. (See end of Document for details)*

PROSPECTIVE

# ATODLEN 1

## GORFODI

*Cael adroddiad lle rhoddir hysbysiad paragraff 3*

4 (1) Pan fydd—

(a) person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn hysbysu'r awdurdod lleol a roddodd yr hysbysiad iddo o'i fwriad i gael adroddiad ysgrifenedig gan berson sydd wedi cymhwyso'n briodol ynghylch y gwaith y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddo, a

(b) adroddiad o'r fath wedi'i gael ac wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol ac os bydd yr awdurdod lleol, o ganlyniad i'w ystyriaeth ohono, yn tynnu yn ôl ei hysbysiad paragraff 3, caiff yr awdurdod lleol dalu'r person y rhoddwyd yr hysbysiad paragraff 3 iddo y swm y mae'r awdurdod yn barnu sy'n cynrychioli'r costau yr aed iddynt yn rhesymol gan y person o ganlyniad i'r hysbysiad a roddwyd gan yr awdurdod, gan gynnwys, ym mhlith pethau eraill, y gost o gael yr adroddiad.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3) isod, os bydd person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn rhoi hysbysiad ei hun o dan is-baragraff (1)(a) uchod o ran y materion y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddynt, dehonglir y cyfeiriad at 28 o ddiwrnodau ym mharagraff 3(3) uchod fel cyfeiriad at 70 o ddiwrnodau.

(3) Rhaid rhoi'r hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod cyn pen y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff 3(3) uchod, neu, yn ôl fel y digwydd, o fewn cyfnod hwy y mae'r llys yn ei ganiatáu o dan baragraff 3(3); ac ni fydd is-baragraff (2) uchod yn gymwys pan fydd cyfnod hwy wedi'i ganiatáu cyn rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Paragraff 4.